**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Hydref 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, , Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, Mrs. D.L. King, B. Mellor, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**22. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, S. Harris, E.L. Jones, K.R. Jones, Mrs W. Mullen James (Cadeirydd), Ms V. Roberts.

**23. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 23.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** Hen Barc Drifft, Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Ms. J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0861<br><br>Amrywio Amod Rhif 5 caniatâd cynllunio 45/2017/0384 i ganiatau dechrau ar waith adeiladu cyn darparu manylion tirlunio.<br><br>Yr ymgeisydd yw Ms. Julia Goddard, Alliance Leisure Services, Angel Crescent, Bridgewater<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| 23.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 43 – 55 Queen Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD:** Ms. J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0910<br><br>Defnyddio tir fel maes parcio dros dro gan y cyhoedd.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr Mark Dixon, Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gyfyngu defnydd dros dro y maes parcio i 5 mlynedd o ddyddiad y dymchwel, gyda'r amodau canlynol am y rhesymau a nodir:*<br><br>- *Cyfyngu oriau gweithrediad y maes parcio i 10.00 a.m. i 10.00 p.m. gydag arhosiad o 3 awr ar y mwyaf*<br>- *Peidio â chodi tâl am barcio*<br><br>*Mae cau Queen Street am gyfnod estynedig wedi cael effaith andwyol ar hyfywedd busnesau lleol a bydd darparu maes parcio am ddim yn yr ardal yn annog cwsmeriaid i ddychwelyd i'r busnesau hyn. Mae'r cyfyngiad amser yno i osgoi gweithwyr siopau lleol rhag defnyddio'r maes parcio ar gyfer parcio staff.* |
| | |
| 23.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 26 Lon Hedyn, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0921<br><br>Adeiladu estyniad a newidiadau i dŷ annedd.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr Richard Mark o'r un cyfeiriad.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| 23.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 48 Trellewelyn Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** A.S. Johnson<br>Mrs. W. Mullen James<br>Ms. V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0920<br><br>Adeilad estyniadau i dŷ annedd. |

| | |
|---|---|
| | Yr ymgeiswyr yw Mr a Mrs. Colin Hall o'r un cyfeieriad.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| 23.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 17 Crescent Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Ms. J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0914<br><br>Gosod ffenestri newydd.<br><br>Yr ymgeisydd yw Cymdeithas Dai Clwyd Alun, 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**24. HYSBYSIAD O APEL YN ERBYN HYSBYSIAD GORFODI CYNLLUNIO – 42 QUEEN STREET, Y RHYL**

Dywedodd y Cadeirydd bod gohebiaeth wedi dod i law gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn dweud bod apêl wedi ei chyflwyno yn erbyn Hysbysiad Gorfodi yn gofyn am adfer tu blaen siop a ffasgia yn y cyfeiriad uchod. Yr Apêl i'w phenderfynu trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

***PENDERFYNWYD** cydnabod yr wybodaeth.*

**25. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………........